Lefel 3 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Uned 3

Sut i gwblhau o leiaf hanner dy asesiadau yn Gymraeg!

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Tasgau Craidd Cyfrwng Cymraeg - gwaith dosbarth

Dewis grŵp benodol (e.e. oedolaeth ddiweddarach, pobl sy'n byw â demensia) a nodi eu hanghenion benodol

(ysgrifenedig)

Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp yn archwilio cysyniadau craidd iechyd a lles (llafar)

Cymryd rhan mewn sesiwn cwestiwn ac ateb a thrafodaeth ynglŷn â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau (llafar)

Cwblhau tabl "Hawl, Pam?, Enghreifftiau" gan restru pedwar hawl allweddol ac egluro eu pwysigrwydd yn ymarferol

(ysgrifenedig)

Ymchwilio i ddarn penodol o ddeddfwriaeth, darganfod sut mae'n cysylltu â hawliau yng Nghymru, a chreu poster i'w gyflwyno i'r dosbarth.

(ysgrifenedig a llafar)

Yr Asesiad Crynodol - CYMRAEG

Asesiad Di-arholiad ar gyfer Uned 3 - gwerth 80 marc



Y dasg - Rhaid i ti ymchwilio a chynhyrchu tystiolaeth ar sut i hyrwyddo hawliau grŵp penodol ar draws eu hoes gyfan

Galli di ddewis creu podlediad, cyflwyniad, neu fideo (uchafswm o 10 munud)

Mae'r asesiad hwn i'w gwblhau yn y Gymraeg

Unigolion galli di ddewis...

Unigolion â salwch meddwl
Oedolion hŷn neu rhai sy'n byw â dementia
Unigolion gyda heriau corfforol
Unigolion sy'n byw â chyflyrau tymor-hir

(ysgrifenedig a llafar)